| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **20 Mehefin 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ymchwiliad craffu posibl – gofal cartref / gofal dydd** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| | |

## 1.0. Cefndir

1.1 Mewn cyfarfod paratoi, y mae aelodau'r Pwyllgor wedi mynegi awydd i gynnal ymchwiliad ym meysydd Gofal Cartref a Gofal Dydd, gyda'r union sgôp i'w drafod. Nodwyd yn benodol bod aelodau eisiau lleddfu pryderon nad oes wastad digon o ddewis o wasanaethau amrywiol ar gael i unigolion, ac hefyd eisiau sicrhau bod gwasanaethau digonol ar gael ym mhob rhan o'r Sir.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn, sydd i'w gyflwyno yn y cyfarfod ochr yn ochr â chyflwyniad llafar gan Uwch Reolwyr o'r Adran Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Hamdden, yw hysbysu'r aelodau o'r gwaith ail ddylunio a datblygu sydd eisoes ar y gweill yn y meysydd Gofal Cartref a Gofal Dydd.

1.3 Trwy rannu'r wybodaeth berthnasol gyda'r aelodau, y gobaith yw sicrhau bod amseriad a briff unrhyw ymchwiliad yn gwbl briodol a diamwys, gyda'r nôd o arwain at y canlyniadau gorau i oedolion Gwynedd.

## 2.0 Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn 2011-16

2.1 Cafodd Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn Gwynedd am y cyfnod rhwng 2011 a 2016 ei fabwysiadu gan Fwrdd y Cyngor ym mis Ionawr 2012. Yn gryno, dyma yw cynnwys y cynllun:

- Dadansoddiad o anghenion pobl hŷn Gwynedd, o ran natur gwasanaethau a niferoedd
- Gweledigaeth sy'n amlinellu sut rydym eisiau gweld yr anghenion hyn yn cael eu diwallu
- Darlun o'r gwasanaethau oedd yn cael eu darparu yn fewnol neu eu prynu gan y Cyngor ar gychwyn oes y cynllun, ac a fwriedir eu darparu / prynu dros gyfnod o 5 mlynedd
- Crynodeb o'r gyllideb ar gyfer prynu gwasanaethau, a dadansoddiad o'r rhaniad cyllideb rhwng gwahanol fathau o wasanaethau dros gyfnod o 5 mlynedd.

2.2 Gellir gael copi o’r cynllun ar wefan y cyngor drwy ddilyn y linc canlynol: http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1148/cynllun_comisiynu_pobl_hyncymraeg_terfynol.pdf Bydd y cyflwyniad llafar yn ystod y cyfarfod yn tynnu sylw penodol at y weledigaeth (tudalen 1), y model mapio anghenion ac adnoddau (tudalen 24) a’r cynllun gweithredu (tudalen 27).

2.3 Fe welir o’r cynllun comisiynu bod swyddogion ac aelodau’r Cyngor wedi cydnabod yr angen i wneud newidiadau ym meysydd gofal cartref a gofal dydd.

## 3. Adolygiadau sydd ar y gweill

3.1 Yn ystod y cyfarfod, bydd mwy o fanylder ar gael am y gwaith sydd ar y gweill i adolygu gwasanaethau pobl hŷn, yn arbennig ym meysydd gofal cartref a gofal dydd (gan mai dyna y mae’r aelodau wedi mynegi diddordeb ynddo).

3.2 Mae Gofal Dydd yn dod o fewn sgôp y prosiect Trawsnewid Gwsanaethau Pobl Hŷn. Mae’r prosiect hwn wedi bodoli ers peth amser, ac mae’n cynnwys adolygu darpariaeth gofal preswyl a gofal cymunedol.

3.3 Mae Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017, o dan faes ‘Gofal, Iechyd a Lles’, blaenoriaeth GOF1 : ‘Ymateb yn Well i Anghenion Pobl Fregus i Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy’, yn ymrwymo i weithredu’r Prosiect Trawsnewid Pobl Hŷn. Dyma a ddywedir yn benodol am yr hyn sydd i’w gyflawni yn ystod 2013/14 ym maes Gofal Dydd:

- Cytuno ar gynllun sy’n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwaith / gwirfoddoli / cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys
- Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon
- Datblygu rhaglen waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia.

3.4 Nid yw gofal cartref yn destun adolygiad penodol o dan y prosiect uchod, ond caiff ei ddatblygu a’i fonitro’n barhaus gan y tîm sy’n monitro contractau, gyda chefnogaeth y tîm broceriaeth. Trwy gyfrwng perthynas waith gref gyda’n darparwyr mewnol ac allanol, sicrheir bod unrhyw faterion ynghlwm ag ansawdd, anghenion neu leoliad darpariaeth yn cael eu trafod a’u datrys yn ôl yr angen. Byddwn yn parhau i ddatblygu yn unol â’r bwriadau sydd o fewn y Cynllun Comisiynu, ac adolygu’r bwriadau hynny fel y daw gwybodaeth gyfredol i law am ansawdd, cost uned a chryfder y farchnad.

## 4. Y ffordd ymlaen

4.1 Ar sail yr wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn 2011-16 ac ar lafar yn y cyfarfod, y gobaith yw y gellir cael trafodaeth adeiladol am yr hyn y dylid ei gynnwys o fewn sgôp unrhyw ymchwiliad craffu, a phryd fyddai’n amserol i gynnal ymchwiliad o’r fath.